# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3)-17-08(p.2) : 27 Tachwedd 2008

**Papur Tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.**

**Ymchwiliad i'r Cynllun Gweithredu Rhianta**

### CYFLWYNIAD

Pennwyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta y cyfeiriad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ddilyn wrth lunio polisi ar rianta hyd at fis Mawrth 2008. Nodir yn y Papur hwn sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithredu ar ei hymrwymiad i gefnogi rhieni. Mae hefyd yn edrych ar ddylanwad ehangach y Cynllun Gweithredu ar y gwaith o ddatblygu polisïau cysylltiedig ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu gwreiddiol.

Cynorthwyodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r gwaith o lunio'u hadroddiad 'Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru' drwy roi tystiolaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar a hoffem eu diolch am y modd ystyriol a phroffesiynol y cynhaliwyd yr adolygiad. Mae'r papur hwn yn ddilyniant i'r adroddiad hwnnw.

### DYLANWAD EHANGACH Y CYNLLUN GWEITHREDU RHIANTA A'I DDYFODOL

Mae cymorth i rieni bellach wedi'i ymgorffori mewn nifer o bortffolios ac mae rhianta yn cael ei brif ffrydio'n rhan o nifer o bolisïau a rhaglenni. Bu'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn fodd i symbylu hyn. Mae'r adran hon yn sôn am yr hyn sydd ar droed ar hyn o bryd ac yn dangos i ba raddau y cafodd y gwaith hwn ei ddatblygu.

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i rieni drwy'r rhaglenni canlynol:

### Dechrau'n Deg

Gwelwyd camau terfynol llunio'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn cyd-fynd â datblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg ac fe'i gwelwyd yn dylanwadu ar ei ffurf. Mae rhaglenni rhianta yn un o'r pedair hawl sydd yn Dechrau'n Deg. Lluniwyd canllawiau Dechrau'n Deg ar rianta er mwyn ategu **cam 4** o'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Mae'n rhaid i'r rhaglenni rhianta ddangos eu heffeithiolrwydd o ran eu deilliannau i blant ac y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi'n briodol.

Wrth i'r rhaglen Dechrau'n Deg gael ei gweithredu ledled Cymru, mae awdurdodau lleol wedi nodi ochr yn ochr â chyflwyno rhaglenni rhianta strwythuredig, bod angen cymorth penodol ar rai rhieni er mwyn medru defnyddio gwasanaethau. Bydd yr astudiaeth thematig ar rianta sy'n rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol i'w gynnal ar raglenni Dechrau'n Deg a Chymorth eleni yn edrych ar y modd y caiff y rhaglenni rhianta hyn eu cyflwyno, gan gyflwyno tystiolaeth a fydd yn fodd i wella eu heffeithiolrwydd.

**Diogelu Teuluoedd**

Mae'n hanfodol bod rhieni plant a phobl ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cael cynnig cymorth. Nod ein rhaglen '"Cryfhau Teuluoedd'" ar gyfer rhieni pobl ifanc yw lleihau ac atal achosion o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau ymddygiadol eraill ymhlith pobl ifanc. Yn sgil gwaith gwerthuso ehangach ar y rhaglen, gwelwyd bod gwelliannau mewn sgiliau rhianta yn helpu i atal pobl rhag camddefnyddio sylweddol a phroblemau ymddygiadol eraill.

Mae Adran 3 dogfen Llywodraeth y Cynulliad, "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Cynllun Gweithredu Tair Blynedd ar Gamddefnyddio Sylweddau 2008-11" yn edrych ar gefnogi rhieni a diogelu teuluoedd. Mae'r canlynol ymhlith y camau sy'n cael eu cymryd i roi cymorth:

Ymgynghori ar sefydlu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer teuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau'n digwydd ochr yn ochr â phryderon ynghylch lles plentyn;

Datblygu a dosbarthu dulliau ymarferol o gefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth integredig i deuluoedd;

Treialu a gwerthuso gwasanaeth integredig i deuluoedd;

Cyhoeddi canllawiau i helpu Byrddau Lleol Diogelu Plant i ddatblygu protocolau ar gyfer cydweithio rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant.

**Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd**

Aethom ati yn ddiweddar i ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd fel rhan hanfodol o'n strategaeth ar gyfer plant agored i niwed. Mae'r cynigion yn cynnwys rhoi cyfrifoldeb ar y cyd i awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y GIG sefydlu timau amlddisgyblaethol i fodloni anghenion cymhleth teuluoedd agored i niwed lle caiff gallu rhieni i fagu plant ei amharu o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu gam-drin domestig a lle bo pryder ynghylch lles y plentyn.

Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn ymateb i bryderon bod gan ddwy ran o dair o'r plant sy'n cael eu derbyn i ofal awdurdodau lleol rieni â phroblemau anodd eu trin ac anghenion dyrys iawn.

Bydd datblygu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn atgyfnerthu a chryfhau sgiliau o ymgysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd y mae eu ffordd o fyw yn gwbl anhrefnus a byddant yn rhoi mwy o gymorth ac, mewn rhai achosion, yn gwneud penderfyniadau yn gynharach am y risg a'r deilliannau gorau i'r plentyn.

Dengys yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori fod cefnogaeth glir i Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a phwysigrwydd dwyn gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion ynghyd yn nes at ei gilydd er mwyn rhoi cymorth mwy holistig ei natur i deuluoedd cyfan.

Rydym bellach yn cynnig profi'r trefniadau newydd mewn tri maes dechreuol gan ganolbwyntio ar ail-lunio gwasanaethau er mwyn cynnig cefnogaeth fwy effeithiol ac ymyrryd yn gynharach. Rydym wedi derbyn sawl datganiad o ddiddordeb gan awdurdodau lleol sydd am gymryd rhan.

**Cynnwys Tadau mewn Gwasanaethau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar**

Ym mis Hydref 2008, lansiwyd gennym y canllawiau "Cynnwys Tadau mewn Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar"," " sef cam cadarnhaol tuag at gynnwys tadau yn y gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Rhoesom arian i Blant yng Nghymru i gynnal yr adolygiad o'r deunydd sydd ar gael yn y maes a hefyd i lunio'r canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

Mae nifer y tadau sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd yn isel ar hyn o bryd ac mae'r gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â thadau a gofalwyr sy'n ddynion. Ein dymuniad yw eu hannog i gymryd rhan er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc o ran eu perthynas â'u cyfoedion, eu hunan-barch ac er mwyn lleihau problemau ymddygiadol.

**Sdim Curo Plant!**

Rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i nodau'r ymgyrch 'Sdim Curo Plant! fel y caiff plant a phobl ifanc eu gwarchod gan y gyfraith yn yr un modd yn union ag oedolion. Byddwn hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni ynghylch dulliau eraill i'w defnyddio yn hytrach na disgyblu plant yn gorfforol. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid uniongyrchol i'r ymgyrch yng Nghymru ar gyfer y pedair blynedd hyd at fis Mawrth 2008 ac rydym yn parhau i gefnogi gwaith hyrwyddo yn y maes hwn drwy'r grant craidd rydym yn ei roi i Blant yng Nghymru.

Drwy'r adeg bu'r pwyslais ar feithrin ymwybyddiaeth ac ar gyflwyno'r achos o blaid newid deddfwriaethol. Rhoesom gymorth tuag at yr wythnos 'Help wrth Law' yn Llansawel yn 2006 lle treialwyd cynllun ar sail cymuned gyfan o hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant. Rhoddwyd cymorth hefyd tuag at becyn cymorth Help wrth Law yn rhan o'r ymgyrch 'Sdim Curo Plant! a gafodd ei lansio ym mis Mawrth eleni. Ceir yn y pecyn cymorth hwn adnoddau y gall gweithwyr proffesiynol ac eraill eu defnyddio i hyrwyddo neges a thechnegau dulliau cadarnhaol o rianta.

## Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae angen i ni hefyd drosglwyddo'r neges ymhlith plant a phobl ifanc ynghylch dulliau cadarnhaol o fagu plant. Un ffordd o wneud hyn yw drwy'r gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol sy'n rhan o gwricwlwm yr ysgol. Gwelwyd y Fframwaith ABCh newydd ar gyfer disgyblion rhwng 7 a 19 oed yng Nghymru yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2008 ymlaen. Datblygwyd y fframwaith gan Lywodraeth y Cynulliad drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau eraill. Dyma'r ddogfen allweddol y dylai darparwyr dysgu ei defnyddio wrth adolygu eu darpariaeth ABCh.

Mae ABCh yn paratoi dysgwyr i fod yn effeithiol o safbwynt personol a chymdeithasol ac ymhlith ei nodau y mae datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol ymhlith y dysgwyr eu hunain a'u paratoi tuag at heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau bywyd fel oedolyn.

O fewn y thema 'Iechyd a Lles Emosiynol', mae cyfleoedd penodol ar gyfer dysgwyr i ddeall pwysigrwydd perthynas gadarn ymhlith aelodau'r teulu, swyddogaeth priodas, cyfrifoldeb bod yn rhieni a nodweddion magu plant yn effeithiol.

## Grwp Arbenigol ar Dlodi Plant

Gwnaethom ymrwymiad yn y ddogfen 'Cymru'n Un' i sefydlu Grwp Arbenigol ar Dlodi Plant i fynd i'r afael â'r gofynion polisi ehangach a fyddai'n angenrheidiol i gwrdd â'r targedau i gael gwared ar dlodi plant. Cyfarfu'r Grwp dair gwaith ac mae wedi llunio ei rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Yn ei ail gyfarfod ar 4 Gorffennaf, ystyriodd y Grwp bolisïau Llywodraeth y Cynulliad sy'n gysylltiedig ag addysg 4-14 oed. Mae'r Grwp wedi argymell gwella profiad addysgol plant drwy wella'r amgylchedd dysgu yn y cartref gan fynd i'r afael â gallu a hyder rhieni i gefnogi dysgu yn y cartref. Mae'r Grwp hefyd wedi argymell rhoi cefnogaeth fwy trylwyr i raglenni rhianta a'r rheini'n cael eu darparu'n lleol.

Ar ôl i'r argymhellion a wnaed gan y Grwp gael eu hystyried yn ofalus, byddwn yn cyhoeddi ein hymateb ffurfiol.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant**

Cafodd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) ynghylch Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant ei gymeradwyo gan ddau Dy'r Senedd ar 12 Tachwedd. Bydd y Gorchymyn yn rhoi i Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau ehangach i ddeddfu ar gyfer plant agored i niwed er mwyn bodloni'r blaenoriaethau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol i Gymru a hefyd yn unol â'r amserlen ar gyfer Cymru. Mae'r Gorchymyn wedi'i ddrafftio'n eang er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc hyd at 25 oed a chefnogi teuluoedd agored i niwed.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus eisoes yn ei gylch mewn pedwar maes eang:

Dyletswydd asiantaethau cyhoeddus ynghylch tlodi plant;

Y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim a gwasanaethau eraill ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn mannau penodol;

Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a fydd yn cyd-fynd â'r canllawiau ar gyfer darparu'r grant Cymorth.

Cymorth i deuluoedd drwy Wasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a chamau gorfodi rheoliadol wedi'u cryfhau mewn lleoliad plant.

Bydd y polisïau hyn yn sail i ddatblygu'r Mesur ynghylch Tlodi Plant a Phlant Agored i Niwed a gaiff ei gyflwyno maes o law.

Mae'r mentrau hyn oll wedi cyfrannu at fwriad cyffredinol y Cynllun Gweithredu Rhianta o wella'r gefnogaeth a roddir i rieni ledled Cymru. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r camau hyn hyd nes y cânt eu cwblhau. Bydd unrhyw ddatblygiadau pellach yn cael eu llywio gan ganfyddiadau adolygiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**CAMAU GWEITHREDU UNIGOL**

**Cam gweithredu 1: Datblygu llinell gymorth ddwyieithog i rieni yng Nghymru**

Mae'n amlwg bod angen sefydlu llinell gymorth ddwyieithog yng Nghymru ac rydym yn awyddus i weithredu hyn er mwyn cynorthwyo rhieni.

Rwyf wedi nodi'r pryderon a fynegwyd gan amryw gyrff a gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn edrych i weld sut y gallwn fynd yn ein blaen o ran hyn a hefyd i weld pa adnoddau a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Mae trafodaethau â'r Adran Plant, Sgiliau a Theuluoedd yn mynd yn eu blaen er mwyn cael cyllid i gefnogi'r datblygiad hwn. Yn y cyfamser, mae Llinell Rhieni a Mwy (Parentline Plus) yn parhau i dderbyn galwadau o Gymru.

**Cam gweithredu 2: Dosbarthu llyfrynnau**

Mae tri llyfryn wedi'u cyhoeddi yn y gyfres "Codi Plant yn Hyderus". Mae'r llyfrynnau, "O Amser Brecwast i Amser Gwely" a "Help wrth Law" yn cael eu dosbarthu o hyd gan ymwelwyr iechyd i rieni newydd tua phedair i chwe wythnos ar ôl i'r baban gael ei eni. Caiff y llyfrynnau eu rhoi i ategu "Birth to Five: the guide to parenthood and the first five years of a child's life". Nod y ddau lyfryn yw hyrwyddo sgiliau rhianta cadarnhaol yn ystod y blynyddoedd cynnar ac mae "Help wrth Law "wedi'i anelu'n benodol at hyrwyddo dulliau eraill i'w defnyddio yn lle disgyblaeth gorfforol yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad. Gwyddom o'r ymateb a gawsom gan ymwelwyr iechyd y cafodd y llyfrynnau hyn dderbyniad da gan rieni.

Mae "Birth to Five "yn cael ei adolygu bob 18 mis ac mae'r rhifyn nesaf ar fin ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mae'r trydydd llyfryn, "Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant Dan Ddeg, "wedi'i anelu at rieni plant rhwng 6 a 10 oed a chaiff ei ddosbarthu drwy ysgolion i rieni pob disgybl Blwyddyn 1. Caiff ei ddosbarthu am y drydedd flwyddyn yn ystod 2009.

Mae copïau o'r llyfrynnau hyn ar gael hefyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob ardal awdurdod lleol. Fe'u hanfonwyd i bob uned cyfeirio disgyblion yn ogystal â phrosiectau Dechrau'n Deg a phrosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar rieni. Ein bwriad yw parhau i ddosbarthu'r llyfrynnau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd rhieni a'u bod yn derbyn cymorth.

Gan fod y llyfrynnau hyn wedi cael eu hailbrintio y llynedd y maent bellach ar gael i bawb sy'n rhieni newydd am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddwn yn ymgynghori â'r rhai a dderbyniodd y llyfrynnau yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol a fu ynghlwm wrth y gwaith i drafod eu gwerth o ran dosbarthu mwy ohonynt.

**Cam gweithredu 3:  Bod yn daid a nain**

Mae yna rai materion sy'n mynd rhagddynt o hyd yn deillio o'n gwaith ar fod yn daid a nain ac argymhellion y Gweithgor ar Fod yn Daid a Nain. Dyma grynodeb o'r camau gweithredu hyn:

Rydym yn argymell cynnal arolwg o'r defnydd a wneir gan awdurdodau lleol o ofal gan deulu a chyfeillion, ac o'r trefniadau sy'n bodoli i ddarparu cymorth ariannol.Caiff hyn ei wneud drwy'r Mesur Plant a Phobl Ifanc sy'n cynnig darparu fframwaith ar gyfer gofal gan deulu a chyfeillion.

Canllawiau i awdurdodau lleol i roi gwedd gliriach ar y defnydd o ofal gan deulu a chyfeillion, i sicrhau y cydymffurfir â'rgofynion statudol ac i sicrhau cydraddoldeb o ran triniaeth. Caiff hyn ei wneud drwy'r gwaith yn gysylltiedig â'r Mesur Plant a Phobl Ifanc.

Argymhellwyd defnyddio'r pecyn cymorth a luniwyd gan y Grwp Hawliau'r Teulu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu cynhyrchu fersiwn Gymraeg o Lyfr Hawliau'r Teulu a'r pecyn cymorth sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2009.

Cydnabod y rôl sydd gan deidiau a neiniau i'w chwarae wrth gefnogi rhieni yn y canllawiau sy'n cael eu paratoi ar yr hyn y gellir ei wneud i gryfhau teuluoedd wrth bontio'r cenedlaethau. Y bwriad yw datblygu'r canllawiau a'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

**Cam gweithredu 4: Gwerthuso Rhaglenni Rhianta**

Ceisiodd y papur a gomisiynwyd gan Gymunedau sy'n Gofalu ym mis Chwefror 2006 roi cyngor ar nodweddion rhaglenni rhianta effeithiol a nodi'r rhaglenni rhianta hynny sy'n bodloni'r meini prawf hynny. Y papur oedd sylfaen y canllawiau Dechrau'n Deg a chaiff ei

ddefnyddio o hyd gan awdurdodau lleol yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch rhoi cymorth rhianta ym meysydd Dechrau'n Deg ac yn fwy cyffredinol.

Rydym yn parhau i roi cyllid i ymchwilio i raglenni rhianta a'u gwerthuso gan gydnabod yr angen am sylfaen gadarn o dystiolaeth all gael ei defnyddio i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:

"Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru" **–** bydd yn derbyn £100,000 dros dair blynedd i werthuso rhaglen ymyrraeth newydd ar gyfer rhieni babanod a phlant bach o'u geni hyd at 36 mis oed sy'n hyrwyddo dulliau cadarnhaol o fod yn rhieni ac yn lleihau'r risg o weld plant yn datblygu problemau ymddygiadol ac emosiynol gan gynnwys anhwylder ymddygiad.

"Cysylltiadau Teuluol " - £100,000 dros dair blynedd tuag at y gost o werthuso Rhaglen Cysylltiadau Teuluol – Magu Plant. Mae'r gwerthusiad wedi'i gomisiynu ar y cyd gan dair ardal awdurdod lleol (Caerdydd, Casnewydd a Thor-faen) drwy eu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r gwerthusiad yn llywio'r penderfyniad a all y rhaglen hon, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gweithredu yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn, gael ei chynnwys ymysg y rhaglenni a gymeradwywyd o dan y rhaglen Dechrau'n Deg.

"Prifysgol Caerdydd" – Mae swm o £136,021 wedi'i ddyfarnu i Brifysgol Caerdydd dros dair blynedd i ymestyn yr ymchwil a wnaed gan Dr Gordon Harold ar effeithiau gwrthdaro rhwng rhieni ar blant. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn asesu pa mor effeithiol yw'r rhaglen addysg rhianta a bydd yn canolbwyntio ar effaith y berthynas rhwng gwahanol aelodau o'r teulu ar les emosiynol ac ymddygiadol plentyn yn ystod y cyfnod o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Bydd y dystiolaeth a geir o'r gwaith ymchwil yn disgrifio'r cyswllt rhwng profiadau plant yn y cartref a'u datblygiad emosiynol, ymddygiadol ac academaidd yn y tymor hir. Y nod yw dangos yr effaith a gaiff y teulu ar les a chyrhaeddiad academaidd y plentyn gyda'r nod o lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a rhaglenni cefnogi rhieni.

"IPSOS MORI "a " SQW "– Rydym hefyd yn yr ail flwyddyn o werthuso Cymorth a Dechrau'n Deg gan gonsortiwm dan arweiniad IPSOS, MORI a SQW. Un o'r themâu astudiaeth yn 2008-09 yw cyflwyno rhaglenni rhianta o dan adain Cymorth a Dechrau'n Deg.

**Cam gweithredu 5, 6 a 7: Partneriaethau a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc – gan gynnwys y rhan sydd gan rieni i'w chwarae**

Caiff pwysigrwydd cael rhieni a gofalwyr i fod yn rhan o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol a'u gwaith o baratoi eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ei bwysleisio yn ein dogfennau cyfarwyddyd, "Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau" (Awst 2006) a "Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau "(Medi 2007). Cyhoeddwyd hefyd "Cyfranogiad Rhieni: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc "ym mis Medi 2006 yn rhan o'r cam gweithredu hwn.

Mae tystiolaeth glir yng nghopïau drafft y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori yn gynharach eleni fod y Cynllun Gweithredu Rhianta wedi llwyddo i godi proffil rhianta a sicrhau bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi rhieni yn lleol. Mae tystiolaeth hefyd fod y Partneriaethau yn llwyddo fwyfwy i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr wrth gynllunio ac adolygu eu gwasanaethau.

Mae'r Cynlluniau drafft yn awgrymu bod gan dri chwarter y Partneriaethau naill ai Gynlluniau Gweithredu Rhianta yn eu lle neu eu bod wrthi yn eu datblygu. Nodir bod y chwarter sy'n weddill wedi nodi fel blaenoriaeth y bwriad i gynyddu lefel y cymorth a roddir i rieni yn yr ardal.

Rhoddwyd adnoddau ychwanegol i gynyddu'r cymorth i rieni drwy gyllid o dan adain Cymorth yn lleol. Mae'r Cynlluniau yn dangos yn glir bod cyllid Cymorth a Dechrau'n Deg yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas hwn.

Mae'r Cynlluniau drafft hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r Partneriaethau wedi achub ar y cyfle yn sgil y cymorth a roddir gennym, sydd wedi'i dargedu fel ymrwymiad o dan y Cynllun Gweithredu Rhianta, i gynyddu'r hyfforddiant er mwyn cyflwyno rhaglen rianta'r Blynyddoedd Rhyfeddol. Rydym bellach yn cefnogi'r rhaglen hon am y drydedd flwyddyn, gyda grant o £56,000 ar gyfer Blynyddoedd Rhyfeddol am 2008-09.

Bydd y Cynlluniau terfynol yn cael eu dadansoddi'n llawn yn ystod y misoedd i ddod ond dengys ein dadansoddiad cychwynnol bod rhai Cynlluniau yn canolbwyntio ar rianta, yn arbennig o dan Nod Craidd 1 – sef y dylai pob plentyn gael dechrau da i'w bywyd a'r sylfaen orau bosibl i dyfu a datblygu yn y dyfodol. Gwyddom, fodd bynnag, fod rhianta yn parhau ymhell y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar a byddem yn disgwyl i'r Cynlluniau ddelio â materion rhianta o dan y Nodau Craidd eraill hefyd. Mae hyn yn golygu cynnwys rhieni yn addysg eu plant (Nod Craidd 2), hyrwyddo iechyd a lles (Nod Craidd 3) a darparu amgylchedd diogel yn y cartref (Nod Craidd 6). Mae disgwyl i rieni gymryd rhan hefyd yn strategaethau Cyfranogiad Partneriaethau o dan Nod Craidd 5.

Byddwn yn parhau i gasglu enghreifftiau o arferion da wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o ddadansoddi'r Cynlluniau terfynol. Yn ogystal â rhoi adborth unigol i Bartneriaethau, byddwn yn gweithio gyda'r Uned Cymorth i Bartneriaethau er mwyn nodi arferion da a'u dosbarthu yn ehangach. Mae'r posibiliadau yn cynnwys canllawiau pellach ar arferion da neu weithdai dosbarthu gwybodaeth ar lefel ranbarthol. Bydd hefyd yn gyfle i bwysleisio eto wrth y Partneriaethau bwysigrwydd prif ffrydio materion yn ymwneud â rhianta o fewn eu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Ceir tystiolaeth o'r ffordd mae Partneriaethau wedi cynnwys rhianta yn eu Cynlluniau terfynol yn Atodiad 1.

**Cam gweithredu 8: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant gynt) yn wasanaeth di-dâl sy'n cynnig gwybodaeth,

cyngor a chyfarwyddyd cynhwysfawr i rieni a darpar rieni ynghylch gwasanaethau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ffurfio partneriaeth lwyddiannus gyda Chymdeithas Genedlaethol Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (NAFIS) sydd bellach ar ail flwyddyn y contract tair blynedd.

Ym mis Hydref 2006 ysgrifennodd Llywodraeth y Cynulliad at bob Cyfarwyddwyr Addysg, pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Gwybodaeth Plant i wahodd Awdurdodau Addysg Lleol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth Plant i dreialu canolfannau Gwasanaethau Gwybodaeth Plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar y cyd â'r ysgolion bro ac yn y canolfannau integredig newydd. Fe wnaethom ofyn am wybodaeth am ganolfannau sydd eisoes yn bod a gofyn i bob awdurdod lleol ystyried eu gallu ar y pryd ac yn y dyfodol i dreialu canolfannau o'r fath mewn nifer o wahanol leoliadau. Cawsom ymateb cadarnhaol a byddwn yn parhau i drafod gyda NAFIS y cyfle i fwrw ymlaen â hyn yng nghyd-destun yr ymgyrch farchnata.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth addas ar gael yn ehangach i rieni. Bu Tîm Cyfranogiad APADGOS yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn codi eu proffil yng Nghymru. Canlyniad hyn fydd cynnal ymgyrch hysbysebu genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch eu gwasanaethau. Y prif amcanion fydd datblygu gwefan genedlaethol a rhif ffôn cenedlaethol ac adolygu'r canllawiau gwybodaeth sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i rieni yn y llyfryn, "Dewis Gofal Plant". Bydd cael un rhif ffôn yn sicrhau bod pobl sy'n galw yn cael eu rhoi drwodd yn uniongyrchol i'w canolfan Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd agosaf, yn dibynnu ar ble yn union y gwnaed yr alwad. Bydd hefyd yn hwyluso trefnu ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol heb orfod rhestru 22 o wahanol rifau ffôn.

O ganlyniad i gynnal ymgyrch farchnata ehangach a newid yr enw i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ein nod yw cyrraedd y rhieni hynny nad oeddent yn gwybod am y gwasanaethau cyn hynny. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac yn ail-werthuso'r camau nesaf i'w cymryd.

Cafodd enw a logo newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ei lansio yn y Gynhadledd 'Getting it Right for Families' a gynhaliwyd ym mis Hydref i ddathlu Wythnos Rhieni.

**Cam gweithredu 9: Annog rhieni i gymryd rhan mewn ysgolion**

Er mai prin yw'r hyn a wnaed hyd yma ynghylch y cam gweithredu hwn, mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi codi proffil rhianta o fewn polisi ysgolion ac mae mwy o sylw yn cael ei roi iddo. Gwelwyd datblygiadau o ran:

Cynlluniau Pontio

Cafwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 30/2006 (Medi 2006) ganllawiau ar baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Roedd y canllawiau'n nodi'r angen am bartneriaeth effeithiol i reoli'r broses bontio a phwysigrwydd rhoi i ddisgyblion a rhieni y cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r cynllun a gwneud sylwadau ar y camau gweithredu a gynigir. Er mai'r ysgolion eu hunain sydd i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn, mae'r canllawiau yn awgrymu dulliau y gellir eu defnyddio o fynd ati i gasglu barn disgyblion a rhieni. Ymhlith y dulliau hynny y mae cynnal cyfweliadau, trefnu holiaduron a chynnwys rhieni ar weithgorau.

Perfformiad Ysgolion

Yn ystod 2008-09 mae APADGOS wedi treialu adroddiadau graffig newydd sy'n rhoi gwybodaeth gymharol am berfformiad ysgolion yn unol ag asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r adroddiadau newydd wedi'u cynllunio i wella'r broses o sicrhau bod gwybodaeth ar berfformiad cymharol ysgolion ar gael ac i wella'r cysylltiad rhwng rhieni a llywodraethwyr. Cawsant eu defnyddio'n helaeth a'u croesawu a byddwn yn ymgynghori ar ddechrau 2009 ar ddiwygio'r gofynion statudol ar gyfer yr adroddiadau newydd i'w defnyddio yn adroddiadau'r Llywodraethwyr ac i gefnogi'r broses o ymgysylltu â rhieni o haf 2009 ymlaen.

Derbyn i ysgolion

Mae'r gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys darparu'r fframwaith polisi ar gyfer derbyniadau ysgolion ac apelau derbyniadau mewn codau statudol sydd ar hyn o bryd yn cael eu diwygio. Mae'r codau yn rhoi gwybodaeth i rieni ynghylch derbyn i ysgolion a phrosesau apelau derbyniadau. Yn ogystal â hynny rydym yn ymgymryd ag achosion yn ymwneud â derbyniadau drwy gysylltu â'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu dan sylw i drafod pryderon rhieni gan sicrhau bod awdurdodau derbyn wedi ymddwyn yn briodol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Yn olaf, rydym yn monitro effeithiolrwydd yr awdurdodau derbyn a rhoi adborth ar ddogfennau derbyn a gyhoeddwyd, gan gynnwys llyfryn yr awdurdod lleol ar dderbyniadau sy'n rhoi manylion am drefniadau derbyn pob ysgol yn yr ardal dan sylw. Gellir sicrhau drwy hyn fod yr wybodaeth a roddir i rieni ynghylch derbyniadau yn deg ac yn gywir.

Cyfle cyfartal

Mae cynnwys y rhieni a'r gymuned ehangach yn hollbwysig er mwyn gosod sylfeini cadarn yn y blynyddoedd cynnar ac er mwyn codi dyheadau a disgwyliadau drwy gydol gyrfa ysgol y plentyn. Mae eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm a pholisïau eraill yr ysgol yn rhan hanfodol o barchu amrywiaeth.

Yn rhan o'u dyletswydd statudol i hyrwyddo cyfle cyfartal o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, rhaid i bob ysgol gael polisi cyfle cyfartal a rhaid asesu a monitro effaith y polisi ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau hiliol.

Mae swyddogion wedi comisiynu adolygiad gan Estyn o bolisïau ysgolion ar gydraddoldeb hiliol ac yn rhan o'r adolygiad hwnnw asesir i ba raddau y mae'r polisïau hynny yn ganllaw gwirioneddol i arferion rheoli ac i sicrhau gwelliant. Mae'r adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd.

Mae DVD wrthi yn cael ei gynhyrchu ar arferion da o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Caiff ei ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru ynghyd â chanllawiau ysgrifenedig ar arferion da egwyddorion codi cyrhaeddiad ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd y DVD a'r canllawiau yn cynnig bod y rhieni a'r gymuned ehangach yn cael eu hannog yn daer i gyfrannu'n llawn at fywyd a datblygiad yr ysgol. Bydd y DVD yn cynnwys enghraifft o gyfweliad effeithiol gyda rhieni a bydd yn canolbwyntio ar yr angen am gyfleusterau dehongli ar gyfer nosweithiau rhieni. Mae cryfhau'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol yn rhan bwysig o gais o dan raglen Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer consortiwm o 14 AALl a allai gynyddu'n sylweddol eu hincwm ar ffurf grantiau.

Amddiffyn Plant

Mae'r canllawiau ar Ddiogelu Plant mewn Addysg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ebrill 2008 yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau addysg, ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach er mwyn sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol yn eu lle i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cynnwys Rhieni a Gofalwyr ac yn datgan yn glir y dylai pob rhiant a gofalwr fedru deall y ddyletswydd sydd ar ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion neu'n fyfyrwyr yn y lleoliadau hynny. I gyflawni hyn, mae angen llunio polisi a gweithdrefnau ar amddiffyn plant, rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill lle mae pryderon ynghylch lles disgybl.

Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff cenedlaethol eraill. Amlinellir ynddo'r weledigaeth o roi ar waith y cynlluniau i wella effeithiolrwydd ysgolion a hynny drwy ddiwygio ar dair lefel. Cyfeiria'r tair lefel at y gymuned addysg gyfan yn cydweithio tuag at nod cyffredin sef gwella profiadau dysgu a lles plant a phobl ifanc.

Nod y Fframwaith yw adeiladu cymunedau dysgu effeithiol ar y cyd ac un o'i brif elfennau yw gweithio gyda sefydliadau eraill. Mae ysgolion effeithiol yn rhai sy'n gymunedol eu ffocws ac maent yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc yn ystod oriau ysgol a'r tu allan i oriau ysgol. Mae'r Fframwaith yn annog ysgolion i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn mynd i'r afael â lles a dyheadau dysgwyr unigol fel dinasyddion. Pan fydd ysgolion yn gweithio gyda grwpiau eraill yn y modd hwn, gellir harneisio'r ystod gyfan o adnoddau ac arbenigedd er mwyn sicrhau gwell deilliannau o ran y dysgwr a'i les.

Mae'r sylw hwn ar y gymuned a rhieni wedi'i nodi'n benodol o fewn y Fframwaith ac mae wedi'i gryfhau ymhellach o fewn y Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r proffil hwn yn gyfrwng i helpu ysgolion i werthuso eu gweithgarwch a'r ffordd y mae'n mynd i'r afael â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r proffil yn cyfeirio'n helaeth ac yn benodol at rieni a swyddogaeth ysgolion wrth weithio gyda hwy.

Caiff ysgolion eu hannog i werthuso i ba raddau y maent eisoes yn cysylltu â rhieni a grwpiau cymunedol ac i sefydlu prosesau arloesol o gysylltu â'r rheini na fu ganddynt yn draddodiadol fawr o gysylltiad â'r ysgol ac i'w cynnwys er mwyn sicrhau y gall y rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol oll fod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch polisi'r ysgol a datblygiad yr ysgol.

Blas am Oes

Mae'r fenter "Blas am Oes" yn cydnabod mai dim ond rhan fach o ddeiet plant a phobl ifanc yw'r bwyd a ddarperir yn yr ysgol, er mor bwysig yw hynny. Mae'r ysgol yn lle delfrydol i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ar fwyta'n iach ac i'w cefnogi i ymddwyn yn briodol. Mae cyfraniad y rhieni a'r gymuned ehangach yn hollbwysig yn hyn o beth i hyrwyddo newid arferion bwyta plant yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Ystyrir bod y rhieni yn rhanddeiliaid allweddol wrth gyflwyno Blas am Oes a byddwn yn edrych felly ar ffyrdd o ymgysylltu'n effeithiol â hwy i ddatblygu'r agenda ar fwyd mewn ysgolion a fydd yn cynnwys gwella'r modd y caiff gwybodaeth ei dosbarthu drwy bosteri, taflenni, llythyron a digwyddiadau cenedlaethol (er enghraifft yr Eisteddfod, y Sioe Frenhinol).

Ysgolion Iach

Mae cydgysylltwyr ysgolion iach lleol yn gweithio gydag ysgolion i'w helpu i nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i wella iechyd cymuned gyfan yr ysgol. Dylai'r broses hon o nodi anghenion gynnwys rhieni a gallai rhai o'r camau a bennwyd gynnwys rhieni, er enghraifft, gwirfoddoli i helpu gyda gweithgareddau neu elwa'n uniongyrchol o gamau a gymerwyd yn yr ysgol. Er hynny, mae cynnwys pob rhiant yn broblem y mae cydgysylltwyr lleol yn cael yr anhawster mwyaf i'w goresgyn a chafodd strategaethau i wella cyfranogiad rhieni eu trafod yn y cyfarfod diweddaraf o'r cydgysylltwyr. Mae enghreifftiau o arferion da presennol yn cynnwys cysylltu â'r rhieni drwy'r disgyblion neu fanteisio ar gyfleoedd i drafod gwaith yn gysylltiedig ag iechyd pan fydd y rhieni yn yr ysgol am ryw reswm arall.

Mae Bws Coginio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymweld ag ysgolion cynradd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae'r Bws yn darparu sesiynau coginio ymarferol ar gyfer disgyblion a hyfforddiant ar gyfer athrawon. Mae hefyd yn darparu un sesiwn ym mhob ysgol ar gyfer rhieni plant ifanc. Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched yng Nghymru yn cefnogi'r gwaith hwn mewn rhai ardaloedd drwy gynnig cyfres o chwe sesiwn coginio ar gyfer rhieni yn dilyn ymweliad gan y Bws Coginio.

**Cam gweithredu 10: Rhwydrhieni**

Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i roi gwybodaeth i rieni ar dudalennau Addysg gwefan Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r deunydd blaenorol oedd yn berthnasol i rieni yn cael ei ailysgrifennu ar hyn o bryd a'r nod yw cwblhau'r deunydd newydd i'w ychwanegu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008. Bydd y cynnwys yn cael ei ymestyn drwy dynnu ar ffynonellau ehangach o wybodaeth ar

draws Llywodraeth y Cynulliad.

**" "CASGLIADAU**

11.1 Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i bob rhiant yng Nghymru, o'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar drwodd i flynyddoedd yr arddegau. Llwyddodd i wneud hyn drwy roi mwy o flaenoriaeth i anghenion rhieni fel y dangoswyd drwy'r sylw a roddwyd i wella'r cymorth a roddir i rieni yn y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Mae hyn yn dal i fod yn ymrwymiad allweddol ei flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad ac yn un y byddaf yn dal i fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol.